EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020

Rhif 75 – Unawd Cerdd Dant Bl 2 ac iau
'Colli Dant' - Gwenno Mair Davies
Copi ar gael o Adran yr Eisteddfod, Glan-llyn

Eisteddfod

Colli Dant – Gwenno Mair Davies

Mae dant yn fy ngheg sy'n symud
Yn ôl a blaen trwy'r dydd,
Mae'n siglo pan rwy'n siarad,
Ond yn gwrthod dod yn rhydd.

Bu pawb yn y tŷ yn ei dynnu,
A phawb sy'n byw'n y stryd.
Er gwaetha'r holl droi a thynnu
Mae'r dant yn fy ngheg o hyd!

Rhyw ddydd bydd y dant yn fricsen
I gastell y tylwyth teg
A chaf innau bum deg ceiniog
Am y dant sydd yn fy ngheg.